# Llais Llanilar

Tymor yr Hydref 2024 Autumn Term

Gwell gwneud ein gorau na bod yn orau

**Diolch yn fawr i bob dosbarth am fod yn ohebwyr Llais Llanilar.**

***Thank you to the classes for being reporters for Llais Llanilar.***

Croeso i flwyddyn gyffrous arall!

Mae'r hanner tymor yma wedi hedfan, ac yn y rhifyn yma o Lais Llanilar fe gewch chi flas o'r gweithgareddau ar lawr y dosbarth. Byddwn hefyd yn rhannu themau ein gwasanaethau wythnosol ac yn sôn am ein gwaith yng nghymuned yr ysgol.

Os hoffech chi gyfrannu at thema neu os oes gennych chi unrhyw syniadau neu sylwadau, rydym bob amser yn barod i wrando.

Cofiwch ddilyn **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar** ar ein tudalen **Facebook.** Hefyd, mae **gwefan** yr (lla-nilar.ceredigion.sch.uk) yn cael ei diweddaru yn gyson gyda'r newyddion mwyaf cyfredol. Edrychwch ar ein tudalen newydd—Ein Prosiectau—i weld gweld ar lawr y dosbarth.



*Welcome to another exciting new year!*

*This half term has flown by, and in this issue of Llais Llanilar you will get a taste of various activities from every class. We will share the themes of our weekly assemblies and share our work in the school community.*

*If you would like to contribute to a theme or if you have any ideas or comments, we are always ready to listen.*

*Please remember to follow our Facebook page* **Ysgol Gynradd Gymunedol Llanilar.** Also, our school website (llanilar.ceredigion.sch.uk) is regularly updated. Take a look at our new page—Our Projects—to see the work in the classrooms.

# Dosbarth Criw Cyw

Yn ystod ein thema 'Beth sy'n fy ngwneud yn unigryw?' rydym wedi bod yn edrych ar yr wyneb, rhannau'r corff a'r 5 synnwyr. Mae'r plant hefyd wedi mwynhau dysgu am yr hydref a buom am dro i Lyn y Mileniwm.

*During our theme 'What makes us unique?' we have been looking at the face, different parts of the body as well as the 5 senses. The children have also enjoyed learning about the Autumn and going for a walk around the Millennium Lake.*












Creu ein hwynebau allan o ddeunyddiau naturiol a'u labelu
*Creating our faces out of natural materials and labelling.*









Labelu'r corff ar HWB.
*Labelling our bodies on HWB.*

Mynd am dro i Lyn y Mileniwm ac arsylwi ar nodweddion yr hydref.

Going for a walk around the Millennium Lake and observing the changes in the seasons.



Yn ystod ein gwersi iechyd a lles, rydym wedi bod yn ymarfer ein sgiliau sylfaenol yn ogystal â gwneud sesiynau ioga. During our health and well-being lessons we have been practising our basic skills such as catching, kicking and throwing. We have also been practising our Yoga movements.







Buodd Criw Cyw yn brysur yn plannu bylbiau cennin pedr yn yr ardd synhwyraidd yn barod i'r gwanwyn.

Criw Cyw Class have been busy planting daffodil bulbs in the sensory garden ready for the Spring.

# Cogurdd


















Da iawn i'r dysgwyr o flynyddoedd 4, 5 a 6 a aeth ati i greu wrap yn y gystadleuaeth Cogurdd. Roedd hi'n wych i weld sgiliau arbennig y disgyblion. Pob lwc i Lowri yn y rownd sir ym mis Tachwedd.

*Well done to our pupils who prepared a wrap in the Cogurdd competition. It was fantastic to see their skills in preparing food. Good luck to Lowri in the Ceredigion round in November.*

# Dosbarth Gwenllian



Y tymor hwn, mae Dosbarth Gwenllian wedi ymgolli yn hanes y Ffrynt Cartref, gan ddechrau ar daith gyffrous yn ôl i'r 2il Ryfel Byd. Cawson nhw ddiwrnod gwych ar drên Cwm Rheidol, lle'r oedd pawb yn edrych yn anhygoel wedi'u gwisgo fel plant Efaciwi, gan ddal ysbryd o'r cyfnod. Mae'r plant wedi rhannu'r profiad trwy farddoniaeth emosiynol, yn archwilio teimladau dwys yr efaciwis, a chawsant gyfle i ysgrifennu dyddiadur dychmygus yn adrodd eu taith ar y trên o'r dinasoedd i Gymru. Yn ogystal, maen nhw wedi ymgolli yn ymgyrch 'Cloddio am Fuddugoliaeth', gan greu posteri gan ddefnyddio Adobe a chymryd rhan mewn gweithgareddau garddio ymarferol trwy baratoi'r ardd a phlannu hadau. I gwblhau'r cyfan, mwynhaodd y plant coginio gyda'i gilydd i wneud cawl blasus, gan uno hanes gyda chreadigrwydd wrth weithio fel tîm!













This half term, Dosbarth Gwenllian has immersed themselves in the history of the Home Front, embarking on an exciting journey that has brought the past to life. They had a fantastic day aboard the Vale of Rheidol train, where everyone looked splendid dressed as evacuees, truly capturing the spirit of the era. The children have expressed their reflections on the experience through poignant poems, exploring the complex feelings of evacuees, and they wrote imaginative diary entries recounting their train journey to Wales. Additionally, they've delved into the Dig for Victory campaign, creating vibrant posters using Adobe and taking part in hands-on gardening activities by preparing the garden and planting seeds. To top it all off, they enjoyed cooking together to make a delicious cawl, blending history with creativity and team-work!



# Dosbarth Glyndŵr

Dyma ddechrau arbennig i ddisgyblion Dosbarth Glyndŵr. Ein thema y tymor hwn yw'r Ail Ryfel Byd a cawsom daith arbennig ar drên bach y Rheidol fel sbardun i'r thema. Roedd hi'n grêt i wisgo i fyny fel ifaciŵi ac i feddwl sut deimlad fyddai wedi bod i'r plant yn ystod y rhyfel.





What a fantastic start to the year for Years 5 and 6. Ein theme for this term is the Second World War and we had a great trip on the Vale of Rheidol railway to kickstart the theme. It was fantastic to dress up as an evacuee and to empathise with the children that would have left their homes during the war.

Mwynhaodd disgyblion Glyndŵr ddysgu am y Blits yn ninas Abertawe. Yn dilyn ymchwilio a darganfod gwybodaeth am y cyfnod, roedd hi'n braf i arbrofi a chreu darn o waith celf i arddangos y dinistr.

Glyndŵr class enjoyed hearing all about the Blitz in Swansea. After researching for facts, it was great to see the class be creative and experimenting with different art techniques to create their own piece to show the events.

Dathlodd Dosbarth Glyndŵr ddiwrnod T Llew Jones ar ddechrau fis Hydref. Sganiwch y côd QR i glywed ambell gerdd gan rai o'r disgyblion.

Glyndŵr class celebrated T Llew Jones day and wrote their own poems about the Autumn. Scan the QR codes to hear some of their poems.








Daeth PC Hannah Evans i ymweld â disgyblion Glyndŵr i rannu gwybodaeth am sylweddau gwahanol a sut i gadw'n ddiogel.

PC Hannah Evans visited Glyndŵr class to share information about different substances and how to keep safe.

Aeth Dosbarth Glyndŵr i ymweld â'r Llyfrgell yn Aberystwyth i ymaelodi a benthyg llyfrau i fwynhau dros y gwyliau! Diolch am y croeso!

Glyndŵr class went to visit the Library in Aberystwyth to become members and to borrow books to enjoy over the holidays. Thank you for the welcome!

# Dewch i gwrdd â Lleisiau Ilar ……….

# ……………………..Let's meet this year's Lleisiau Ilar

**Mae Lleisiau Ilar wedi bod yn brysur iawn dros yr hanner tymor ac mae eu gwaith wedi cael effiath bositif ar yr ysgol. Dewch i glywed am ychydig o'r gwaith yma.**

**Lleisiau Ilar's work have had a positive impact on the school this half term. Come and hear about some of their activities.**

## Dewiniaid Digidol—Digital



Awdit teclynau digidol.

Hyfforddi staff ar Google Site.

*Digital device audit.*

*Train staff on Google sites*

## Llysgenhadon Gwych—Super Ambassadors



Cynnal gwasanaeth Hawliau Plant a rhoi cyflwyniad i'r Llywodraethwyr.

Arwain sesiynau ioga Criw Cyw

*Lead Rights of the Child assembly and give presentation to the governors.*

*Lead yoga classes in Criw Cyw*

## Llysgenhadon Ffit Ilar Ambassadors



Cynnal sesiynau ffitrwydd amser cinio.

Arwain gwersi ymarfer corff wythnosol.

*Lead lunchtime fitness sessions.*

*Lead sports lessons weekly.*

## Pencampwyr ein Planed—Eco Warriors



Taith Iechyd a Diogelwch gyda llywodraethwr.

Arwain gwasanaeth Diolchgarwch Wateraid.

*Health and Safety walk with governor.*

*Lead Thanksgiving assembly on Wateraid*

## Cewri Cymreig—Welsh Giants

Awdit Cymreictod gyda llywodraethwr

Cyflwyno idiom yr wythnos yn y gwasanaeth .

*Welsh ethos audit with a governor.*

*Introduce idiom of the week in assembly.*



## Y Cyngor Ysgol—The School Council




Trefnu Bore Coffi a Chlonc Macmillan.

Arwain gwasanaeth 'Dangos y Cerdyn coch i Hiliaeth'

*Organise Macmillan Coffee and Chat morning.*

*Lead 'Show Racism the red Card' assembly.*

# Trawsgwlad

Aeth criw o ddisgyblion yr Adran Iau i gystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad cylch Aberystwyth. Llongyfarchiadau i bawb a ddaeth yn y 10 cyntaf.

Some pupils from Glyndŵr and Llywelyn class attended the area Cross Country competition. Congratulations to all who came in the top ten.

















# Rhannu Negeseuon Pwysig

**Diwrnod Shw'mae Sumae**

Fe wanethom ddathlu Diwrnod Shw'mae, Sumae yn yr ysgol trwy amryw o weithgareddau difyr. Rhannodd y Cewri Cymreig neges bwysig i ddechrau bob sgwrs yn y Gymraeg. Peintiodd pob plentyn garreg a'u cuddio yn y gymuned—cofiwch anfon neges ar Facebook os ydych chi wedi gweld carreg.




We celebrated Shw'mae, Sumae Day with lots of fun activities. The Cewri Cymreig—Welsh Giants—shared the important message to start every conversation in Welsh. Every child painted a message on a stone and hid the in the community— remember to share it on Facebook of you see a stone!

**Mis Hanes Pobl Duon— Black History Month**

Rydym wedi bod yn dathlu mis hanes pobl duon trwy ddysgu am bobl ysbrydoledig fel Mrs Betty Campbell, Rosa Parks a Shirley Bassey. Fe arweiniodd y Cyngor Ysgol wasanaeth arbennig i Ddangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth.

*We have been celebrating black history month by learning about inspirational people like Mrs Betty Campbell, Rosa Parks and Shirley Bassey. The School Council also led an assembly to Show Racism the Red Card.*

**Cefnogi Eraill — Helping others**




Mae plant a chymuned Ysgol Llanilar yn ymfalchio mewn cefnogi eraill. Diolch yn fawr i bob un a ddaeth i fore Coffi a Chlonc a drefnwyd gan y Cyngor Ysgol. Roedd y neuadd yn orlawn a chawsom wledd o gacennau! Roedd y plant wedi diddanu trwy ganu caneuon ac roedd bwrlwm yn llenwi'r neuadd. Casglwyd £600 i Macmillan—diolch yn fawr i chi am eich gefnogaeth.

Mae'r ysgol gyfan wedi gwisgo glas er mwyn codi ymwybyddiaeth am Wateraid. Fe wnaeth Pencampwyr ein Planed arwain gwasanaeth Diolchgarwch arbennig i rannu gwaith Wateraid ym Mali, Gorllewin Affrica.



The children and community of Ysgol Llanilar take pride in supporting others. A big thank you to everyone who came to the Coffee and Chat morning that the School Council organised. The hall was packed and we had a feast of cakes! £600 was collected for Macmillan — thank you very much for your support.

The whole school wore blue to raise awareness of Wateraid. Our Eco Warriors led a special Thanksgiving service to share Wateraid's work in Mali, West Africa.

# Sharing Important messages